



Gower College Swansea
Coleg Gŵyr Abertawe

Cynllun Iaith Gymraeg



Derbyniodd Cynllun Iaith Gymraeg Coleg Gŵyr
Abertawe gymeradwyaeth Comisiynydd y
Gymraeg dan adran 14 (1) Deddf yr Iaith Gymraeg
1993 ar 30 Ebrill 2013.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg yn trosglwyddo swyddogaethau'n ymwneud â chynlluniau iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg. Dros gyfnod o amser, caiff cynlluniau iaith Gymraeg eu disodli gan safonau statudol a fydd yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a phheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddant yn nodi sut y disgwylir i sefydliadau ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd a sut y byddant yn trin ac yn defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gymryd camau cadarnhaol i weithredu'r swyddogaethau o dan y Mesur newydd.

- 1. Cyflwyniad** Tudalen 1
- 2. Proffil y Coleg** Tudalennau 2-3
 - 2.1 Y Coleg
 - 2.2 Demograffeg
 - 2.3 Natur Ieithyddol Abertawe
 - 2.4 Yr Amgylchedd Economaidd
- 3. Gweithredu a Monitro'r Cynllun** Tudalennau 4-9
 - 3.1 Gweithredu
 - 3.2 Cyfrifoldebau ar gyfer paratoi, rheoli a gweithredu'r Cynllun
 - 3.3 Trefniadau Gweinyddol
 - 3.4 Polisiâu a Mentrau Newydd
 - 3.5 Darparwyr Trydydd Parti
 - 3.6 Staffio
 - 3.7 Adolygu a Monitro
 - 3.8 Ansawdd
 - 3.9 Cwynion a Sylwadau
 - 3.10 Cyhoeddi Gwybodaeth a Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun
- 4. Datblygu Ethos Cymraeg yn y Coleg** Tudalennau 10-12
 - 4.1 Trefniadau Gweinyddol
 - 4.2 Datblygu Ethos Cymraeg o fewn y Cwricwlwm
 - 4.3 Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg
 - 4.4 Wyneb Cyhoeddus y Coleg
- 5. Datblygu Sgiliau Cyfathrebu Dwyieithog i Ychwanegu at y Ddarpariaeth Cyfrwng Saesneg** Tudalen 13
- 6. Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg neu Ddwyieithog i Ddysgwyr Ôl-14** Tudalen 14

1. Cyflwyniad

- 1.1** Hwn yw Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf Coleg Gŵyr Abertawe. Bydd y Cynllun yn adeiladu ar y cynlluniau iaith blaenorol a luniwyd gan y cyn golegau Coleg Gorseinon a Choleg Abertawe.
- 1.2** Mae'r Cynllun Iaith yn cyfeirio at y cyfnod 2012 – 2015 ac mae'n ceisio adeiladu ar yr arferion da a'r mesurau rhagweithiol a weithredwyd drwy ein cynlluniau blaenorol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu darpariaeth ddwyieithog y Coleg ymhellach. Mae'r Cynllun wedi corffori'r argymhellion a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn yr adborth a gafwyd ar y cynlluniau unigol.

Adeiladu ar yr arferion da a'r mesurau rhagweithiol

- 1.3** Mae'r Cynllun wedi nodi meysydd o ddatblygiad dwyieithog er mwyn parhau i gyfrannu'n weithredol at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef creu Cymru ddwyieithog (Iaith Pawb 2003).
- 1.4** Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar ddatblygu tair elfen allweddol a nodir yng nghyhoeddiad Colegau Cymru, y Strategaeth Genedlaethol ar Ddwyieithrwydd mewn Addysg Bellach, sef:
- Datblygu ethos Cymraeg yn y Coleg
 - Datblygu sgiliau cyfathrebu dwyieithog i ychwanegu at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg
 - Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer dysgwyr ôl-14.
- 1.5** Mae manylion sy'n dangos sut y caiff y tair elfen hyn eu datblygu i'w gweld yn adrannau 4, 5 a 6 y Cynllun.
- 1.6** Mae'r Coleg newydd lunio ei Gynllun Strategol cyntaf ar gyfer y cyfnod 2012 – 2015. Mae'r Coleg wedi gosod gweledigaeth heriol i'w hunan, sef **"Bod y Coleg gorau yng Nghymru"**. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfres o nodau ac amcanion strategol sy'n datgan sut y bwriadwn wireddu'r weledigaeth hon.

- 1.7** Y nod strategol allweddol a fydd yn llywio gwaith y Coleg o ran hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yw ein hail nod, sef:

"Sicrhau bod profiadau dysgu yn gwella sgiliau dysgwyr, eu dealltwriaeth o'r amgylchedd, iaith a diwylliant Cymru."

- 1.8** Er mwyn cyflawni'r nod hwn, ein hamcan strategol yw:

"Parhau i ddatblygu ethos a chwricwlwm Cymraeg yn unol â'r Strategaeth ar Ddwyieithrwydd a'r Cynllun Iaith Gymraeg."

- 1.9** Mae'r Coleg wedi ymrwymo i'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, ac mae'n meithrin dulliau o gynnwys y gymuned Gymraeg ei hiaith yn Abertawe.

- 1.10** Yn ystod cyfnod y Cynllun bydd y Coleg yn dal i ymrwymo i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd yn parhau i groesawu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal a bydd hefyd yn parhau i fabwysiadu agwedd ragweithiol at y Gymraeg er mwyn codi proffil yr iaith a chynyddu'r defnydd ohoni lle bynnag y bo'n bosibl.

- 1.11** Wrth weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg, ein nod yw:

- a. Trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal a pharhau i ddarparu a datblygu gwasanaethau o safon uchel drwy'r ddau gyfrwng.
- b. Datblygu ymhellach cwricwlwm sy'n eang, yn hyblyg, yn ymatebol ac yn ddwyieithog er mwyn ateb anghenion y gymuned a diwydiant.
- c. Sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael y cyfle a'r hawl i ddewis yr iaith yr hoffent ei defnyddio wrth gynnal busnes â'r Coleg.
- ch. Rhoi cyhoeddusrwydd i ethos dwyieithog o fewn y Coleg, a hyrwyddo a datblygu'r ethos hwnnw ymhellach, gan ddangos ei ymrwymiad at Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Ein Gweledigaeth yw **"Bod y Coleg GORAU yng Nghymru"**

2. Proffil y Coleg

2.1 Y Coleg

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn goleg newydd a gafodd ei ffurfio pan unwyd Coleg Gorseinon a Choleg Abertawe yn Awst 2010.

Erbyn hyn rydym yn Goleg Addysg Bellach mawr gyda dros 11,000 o ddysgwyr sy'n hanu o Abertawe a'r siroedd cyfagos. Mae'r Coleg yn brif gyflogwr yn Ninas a Sir Abertawe ac mae'n cyflogi tua 920 o staff.

Lleolir y Coleg mewn ardal sy'n economaidd ac yn ddaearyddol bwysig yng nghanol De-orllewin Cymru. Mae dau brif gampws y Coleg yn Nhycloch a Gorseinon yn gwasanaethu ardal gyfan dinas Abertawe a thu hwnt. Ar hyn o bryd mae'r Coleg yn gweithredu ar chwe safle ar hyd coridor sy'n ymestyn o'r Parc Busnes yn Llansamlet yn y Gogledd-ddwyrain i ganol y ddinas ei hun a champws Gorseinon yng Ngogledd-orllewin Abertawe.

Mae nifer y dysgwyr ar gyfer 2010/11 yn dangos bod gan y Coleg dros 4,000 o ddysgwyr amser llawn a dros 7,000 o ddysgwyr rhan-amser. Mae nifer y dysgwyr rhan-amser wedi lleihau'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae nifer y dysgwyr amser llawn yn cynyddu.

2.2 Demograffeg

Roedd poblogaeth Cymru yn fwy na thair miliwn erbyn canol 2010. Am y tro cyntaf amcangyfrifir bod poblogaeth bresennol Cymru yn 3,006,400. Nid yw'r twf hwn wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws 22 o awdurdodau lleol Cymru. Gwelwyd twf ym mhoblogaeth deg awdurdod rhwng 2009-2010, gan gynnwys Abertawe, gyda'r twf mwyaf yng Nghaerdydd.

Yr amcangyfrif o boblogaeth canol blwyddyn a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ar gyfer Dinas a Sir Abertawe yw **232,500**, gyda 114,800 o wrywod a 117,700 o fenywod. Mae'r ffigur hwn yn dangos cynnydd o **200 (+0.08%)** o'i gymharu â phoblogaeth 2009 - y nawfed cynnydd blynyddol yn olynol er 2001.

O'r 22 Awdurdod Unedol yng Nghymru, Abertawe sydd â'r drydedd boblogaeth uchaf, gan gynrychioli bron 8% o gyfanswm poblogaeth Cymru (3,006,400).

Mae twf Abertawe yn parhau i gael ei lywio gan fudo. Mae mewnlf net o fudwyr o'r tu mewn a'r tu allan i'r DU wedi ychwanegu dros 900 at boblogaeth Abertawe. Fodd bynnag, yn wahanol i'r blynyddoedd diweddar, mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu bod modd priodoli'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn (67%) i fudo mewnol net (o fewn y DU).

Mae cyfran poblogaeth oedran gweithio Abertawe (16-64 oed), sef 64.6%, yn

uwch na'r gyfran i Gymru (63.2%). Fodd bynnag, mae gan Abertawe gyfran is o blant (0-15 oed), sef 17.1%, o'i chymharu â Chymru (18.2%) a'r DU (18.6%).

2.3 Natur Ieithyddol Abertawe

Mae Cyfrifiad 2001 yn awgrymu bod gan 22.5% o boblogaeth Abertawe (48,582 o bobl) rywfaent o sgiliau yn y Gymraeg, a chofnodir bod 9.4% ohonynt yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Y grŵp mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth leol yw'r grŵp oedran 10-14 oed.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Dinas a Sir Abertawe 2012-2015 yn dangos bod nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu wrth i ragor o leoedd gael eu darparu mewn ymateb i'r galw. Agorodd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Nhreforys ym Medi 2011. Mae'r nifer sy'n mynychu ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cynyddu'n raddol wrth i nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion cynradd ehangu. Mae tua 9% o ddisgyblion yr awdurdod yn mynychu'r ddwy ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, sef Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe. Fel arfer mae'r gyfradd trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Abertawe (Cyfnod Allweddol 2) ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (Cyfnod Allweddol 3) bron 100%. Mae'r gyfradd aros yn yr ysgol ôl-16 yn uchel iawn yn y ddwy ysgol uwchradd yn Abertawe, sef tua 70%.

Mae 14 ysgol uwchradd yn Abertawe a'r cyffiniau a daw'r rhan fwyaf o ddysgwyr y Coleg o nifer o'r ysgolion hyn. Mae'r Coleg hefyd yn denu nifer fach o ddysgwyr o'r ddau awdurdod cyfagos, sef Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin. Yn Abertawe, mae Adroddiad Cyrchfan Disgyblion 2010 Gyrfa Cymru yn dangos bod 53% o ddysgwyr 16-19 oed yn parhau â'u haddysg mewn Coleg Addysg Bellach o'i gymharu â 31% o ddysgwyr sy'n mynychu chweched dosbarth ysgolion. Mae chweched dosbarth ar y cyd yn cael ei weithredu mewn partneriaeth rhwng Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe gyda thua 200 o ddysgwyr y flwyddyn.

Ar hyn o bryd mae dewisiadau ôl-14 cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnal drwy ddull gweithio mewn partneriaeth rhwng Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe a chânt eu cefnogi gan arbenigedd galwedigaethol penodol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe (ar gyfer Gofal Plant) a Choleg Sir Gâr (ar gyfer Adeiladu). Mae'r Rhwydwaith 14-19 yn cefnogi datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 o fewn trefniadau partneriaeth.

Yn ôl dadansoddiad o ddata 2010/11 roedd 6% o ddysgwyr amser llawn yn siarad Cymraeg yn rhugl ac roedd 6% o ddysgwyr amser llawn eraill yn ystyried eu hunain yn "siaradwyr Cymraeg, ond heb fod yn rhugl". Gwelwyd patrymau tebyg ar gyfer dysgwyr rhan-amser gyda 6% ohonynt yn "siaradwyr Cymraeg rhugl" a 5% yn "siaradwyr Cymraeg, ond heb fod yn rhugl".

2.4 Yr Amgylchedd Economaidd

Mae gan Abertawe gyfansoddiad sectorol modern ac nid yw'n dibynnu'n ormodol ar 'hen' ddiwydiannau megis gweithgynhyrchu traddodiadol. Mae gan economi Abertawe gyfran fawr o swyddi yn y sector gweinyddu cyhoeddus, lletygarwch, gwasanaethau ariannol ac adwerthu. Amcangyfrifir bod 89.6% o'r gweithlu wedi'u cyflogi yn y sector gwasanaethu, gyda 31.4% yn gweithio yn y sector cyhoeddus.

Mae Abertawe yn dioddef o fylchau sylweddol mewn allbwn a chynhyrchedd a diffyg busnesau. Mae Strategaeth Adfywio Economaidd Abertawe yn ceisio lleihau'r bwlch a hybu rhagor o weithgarwch busnes a menter yn yr ardal.

Mae ffigurau diweddar o Broffil Economaidd Abertawe (Gorffennaf 2011) yn dangos bod Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd a Chyflogaeth yn Ninas a Sir Abertawe yn is na'r cyfartaledd i Gymru, (Abertawe: 66.7%; Cymru: 72.6%).

Er gwaethaf pwysau'r dirwasgiad, mae Coleg Gŵyr Abertawe yn parhau i gynnig hyfforddiant ac asesu seiliedig ar waith i oddeutu 1,000 o ddysgwyr. Defnyddir amryw o sefydliadau yn y diwydiant gwasanaethu a gweithgynhyrchu, yn ogystal â nifer gynyddol o fusnesau bach a chanolig a microfusnesau.



3. Gweithredu a Monitro'r Cynllun

3.1 Gweithredu

- 3.1.1 Bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn creu amgylchedd cefnogol sy'n annog myfyrwyr, staff ac aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn y dosbarth a'r tu allan i'r dosbarth. Bydd y Coleg yn parhau i godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod y rhai di-Gymraeg yn cael eu cyflwyno i iaith a diwylliant Cymru a'u hannog i ymddiddori ynddynt.

Annog myfyrwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn y dosbarth a'r tu allan i'r dosbarth.

- 3.1.2 Wrth weithredu'r Cynllun bydd y Coleg yn trin eu myfyrwyr fel 'aelodau o'r cyhoedd'.

3.2 Cyfrifoldebau ar gyfer paratoi, rheoli a gweithredu'r Cynllun

- 3.2.1 Y Ddirprwy Brifathrawes fydd â'r prif gyfrifoldeb dros ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg, gyda chymorth y Swyddog Iaith Gymraeg. Bydd y Swyddog Iaith Gymraeg yn gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun o ddydd i ddydd.
- 3.2.2 Mae Grŵp Llywio'r Gymraeg wedi cael ei sefydlu gyda chynrychiolwyr o gyfadranau a meysydd swyddogaethol. Mae'r Grŵp wedi cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun ac felly bydd yn monitro sut y caiff ei weithredu. Bydd y Grŵp hefyd yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn y Coleg. Y Swyddog Iaith Gymraeg sy'n cadeirio'r Grŵp ac mae'r Ddirprwy Brifathrawes yn aelod o'r Grŵp. Mae llywodraethwr arweiniol hefyd yn gyfrifol am fonitro a gweithredu'r Cynllun.
- 3.2.3 Bydd y Swyddog Iaith Gymraeg yn paratoi adroddiad cynnydd i'r Grŵp Uwch Reolwyr ddwywaith y flwyddyn a chaiff adroddiad blynyddol ei gyflwyno i'r Corff Llywodraethu.

- 3.2.4 Gall unrhyw un a hoffai gynnig sylwadau ar y Cynllun a amlinellir yn y ddogfen hon wneud hynny drwy gysylltu â:

Rhian Elizabeth Williams
Swyddog Iaith Gymraeg
Coleg Gŵyr Abertawe
Tychoch
Abertawe SA2 9EB
Ffôn: 01792 284287
e-bost: rhian.williams@
coleggwyrabertawe.ac.uk

3.3 Trefniadau Gweinyddol

- 3.3.1 Mae'r Cynllun hwn wedi cael ei lunio gan y Ddirprwy Brifathrawes a'r Swyddog Iaith Gymraeg, mewn cydweithrediad â Grŵp Llywio'r Gymraeg. Mae'r Cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan Gorff Llywodraethu'r Coleg.
- 3.3.2 Y Ddirprwy Brifathrawes yw'r uwch swyddog sy'n gyfrifol am gydlynw'r Cynllun. Mae gan Reolwyr Academiaidd a Chymorth Busnes gyfrifoldebau dirprwyedig ar gyfer gweithredu agweddau ar y Cynllun sy'n ymwneud â'u meysydd gweithredol.
- 3.3.3 Bydd polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r Cynllun yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi mewn llawlyfr staff, ar y fewnwyd staff a lleoliadau eraill fel y bo'n briodol. Drwy wneud hyn gallwn integreiddio gofynion y Cynllun yn ein dulliau gweithredu arferol.
- 3.3.4 Mae ei wasanaeth cyfieithu ei hun gan y Coleg a chaiff ei fonitro a'i werthuso'n gyson yn erbyn safonau.
- 3.3.5 Bydd gofynion y Cynllun yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw fanyleb ar gyfer prynu systemau cyfrifiadurol a meddalwedd.
- 3.3.6 Gweithredu'r Cynllun fydd un o'r gweithdrefnau sy'n cael eu monitro'n gyson gan y tîm rheoli sy'n cynnwys uwch reolwyr a rheolwyr canol o bob rhan o'r Coleg, yn ddaearyddol ac yn swyddogaethol. Bydd Uwch Gyngorydd Adnoddau Dynol y Coleg yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd o ran targedau recriwtio a datblygu staff i'r Swyddog Iaith Gymraeg a Grŵp Llywio'r Gymraeg.

3.4 Polisiâu a Mentrau Newydd

3.4.1 Ers yr uno, mae'r Coleg wedi mynd ati i adolygu a datblygu amryw o bolisiau sy'n ymwneud â natur a chwmpas ei weithgareddau. Disgwylir datblygu nifer o bolisiau a mentrau newydd yn ystod cyfnod y Cynllun Iaith Gymraeg.

3.4.2 Wrth i bob polisi presennol gael ei adolygu, caiff y canlyniadau ieithyddol eu hasesu yn erbyn fframwaith iaith a fydd yn:

- hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl
- gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng dwy iaith swyddogol Cymru
- sicrhau cysondeb â Chynllun Iaith Gymraeg y Coleg

Bydd y Coleg yn sicrhau nad yw unrhyw bolisiau newydd neu ddiwygiedig yn tanseilio ei Gynllun Iaith Gymraeg.

3.4.3 Caiff holl bolisiau, gweithdrefnau a mentrau newydd eu hasesu yn erbyn y fframwaith a nodwyd uchod yn 3.4.2. Ni chaiff unrhyw bolisiau, gweithdrefnau neu fentrau newydd eu mabwysiadu heb gynnal yr asesiad hwnnw, a'i ddogfennu. Bydd unrhyw gynigion a fyddai'n effeithio ar Gynllun Iaith Gymraeg y Coleg neu gynllun iaith unrhyw sefydliad arall yn destun ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, ac ni chaiff unrhyw newidiadau eu gwneud heb gymeradwyaeth y Comisiynydd.

3.4.4 Hysbysir pob aelod o staff priodol am y trefniadau sy'n ymwneud â'r polisiâu a'r mentrau newydd fel rhan o weithdrefnau llunio polisiâu ac adolygu'r Coleg.

3.5 Darparwyr Trydydd Parti

3.5.1 Gall y Coleg ddefnyddio darparwyr trydydd parti i gyflenwi gwasanaethau addysg a hyfforddiant mewn gwahanol rannau o'r gymuned. Pan fydd cytundebau dan gontract presennol yn cael eu hadolygu bydd y Coleg yn sicrhau eu bod yn cynnwys y gofyniad i ddarparu gwasanaethau sy'n cyd-fynd â gofynion y Cynllun hwn.

3.5.2 Bydd yr holl gytundebau ar gyfer defnyddio trydydd parti arall neu wasanaethau dan gontract, gan gynnwys cyhoeddusrwydd a marchnata, hefyd yn cynnwys y gofyniad i gydymffurfio â'r Cynllun. Byddwn yn sicrhau bod staff sy'n trafod cytundebau o'r fath yn ymwybodol o'r polisi drwy'r prosesau a nodwyd ym mharagraff 3.3.3.

3.5.3 Bydd y Coleg yn monitro i sicrhau bod y contractwr yn gweithredu'r gofynion yn unol â'r cyngor a nodwyd yn nogfen Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg'.

3.5.4 Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'r Coleg yn gweithio ar sawl lefel pan fydd yn gweithio gydag eraill a bydd yn ystyried y cyfrifoldebau a nodwyd yn y Cynllun hwn pan fydd yn gweithio gydag asiantaethau allanol.

3.5.5 Pan fydd y Coleg yn ymuno â phartneriaeth, bydd yn gofyn i ddarpar bartneriaid am eu cynlluniau iaith Gymraeg, eu polisiâu iaith neu sut y byddant yn gweithredu'n ddwyieithog. Bydd y Coleg yn cynnig cyngor a chymorth i sefydliadau partner eraill os yw'n briodol.



3.6 Staffio

- 3.6.1 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol i ddarparu gwasanaethau'r Coleg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ein staff yn chwarae rhan ganolog wrth sicrhau bod yr amcanion a nodir yn y Cynllun hwn yn cael eu diwallu. Mae'r Coleg yn cydnabod ei fod yn hanfodol i ddatblygu sgiliau eu staff o ran siarad Cymraeg ac addysgu yn y Gymraeg.

3.6.2 Dadansoddiad o Sgiliau Staff

- 3.6.2.1 Mae'r Coleg wedi cynnal archwiliad sgiliau yn ddiweddar o'r holl staff ar draws pob maes gwaith a phob campws. Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg o ganlyniadau'r arolwg: (gweler isod)
- 3.6.2.2 Mae'r tabl yn dangos bod tua 7% o staff addysgu yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, gall 6% ddarllen Cymraeg yn rhugl a gall 3.7% ysgrifennu Cymraeg yn rhugl.
- 3.6.2.3 Bydd y Grŵp Llywio'n cynnal dadansoddiad mwy manwl o ganlyniadau'r arolwg er mwyn llywio Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gofynion eraill.

Archwiliad Sgiliau o staff Coleg Gŵyr Abertawe, Rhagfyr 2011.

Lefel sgiliau yn y Gymraeg	Categori Staff	Sgiliau Iaith Gymraeg					
		Siarad		Darllen		Ysgrifennu	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Rhugl	Addysgu ALI	17	7.08	13	5.42	10	4.17
	Addysgu RhA	16	7.62	15	7.14	7	3.33
	Cyfanswm	33	7.33	28	6.22	17	3.78
	Staff nad ydynt yn Addysgu ALI	9	5.08	7	3.95	5	2.82
	Staff nad ydynt yn Addysgu RhA	6	2.86	5	2.38	4	1.9
	Cyfanswm	15	3.88	12	3.1	9	2.33
Eithaf Da	Addysgu ALI	2	0.83	9	3.75	7	2.92
	Addysgu RhA	3	1.43	8	3.81	7	3.33
	Cyfanswm	5	1.11	17	3.78	14	3.11
	Staff nad ydynt yn Addysgu ALI	6	3.39	3	1.69	5	2.82
	Staff nad ydynt yn Addysgu RhA	1	0.48	4	1.9	3	1.43
	Cyfanswm	7	1.81	7	1.81	8	2.07
Cymedrol	Addysgu ALI	14	5.83	17	7.08	9	3.75
	Addysgu RhA	9	4.29	9	4.29	10	4.76
	Cyfanswm	23	5.11	26	5.78	19	4.22
	Staff nad ydynt yn Addysgu ALI	7	3.95	9	5.08	7	3.95
	Staff nad ydynt yn Addysgu RhA	6	2.86	8	3.81	6	2.86
	Cyfanswm	13	3.36	17	4.39	13	3.36
Ychydig	Addysgu ALI	86	35.83	60	28	44	18.33
	Addysgu RhA	73	34.76	49	23.33	37	17.62
	Cyfanswm	159	35.33	109	24.22	81	18
	Staff nad ydynt yn Addysgu ALI	54	30.51	43	24.29	58	15.82
	Staff nad ydynt yn Addysgu RhA	56	26.67	35	16.67	23	10.95
	Cyfanswm	110	28.42	78	20.16	81	13.18
Ddim o Gwbl	Addysgu ALI	121	50.42	141	58.75	170	70.83
	Addysgu RhA	109	51.9	129	61.43	149	70.95
	Cyfanswm	230	51.11	270	60	319	70.89
	Staff nad ydynt yn Addysgu ALI	101	57.06	115	64.97	132	74.58
	Staff nad ydynt yn Addysgu RhA	141	67.14	155	73.81	171	81.43
	Cyfanswm	242	62.53	270	69.77	303	78.29

SYLWCH: **Cyfanswm staff = 920**

Cyfanswm ymatebion = 837

3.6.3 Strategaeth Adnoddau Dynol

- 3.6.3.1 Bydd y Coleg yn adnabod pa feysydd yn y Coleg sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd a bydd yn sicrhau drwy recriwtio, datblygu staff neu drefniadau priodol eraill, y bydd y Coleg yn darparu gwasanaethau priodol yn newis iaith yr aelod o'r cyhoedd.
- 3.6.3.2 Drwy'r archwiliad o sgiliau staff bydd y Coleg yn gallu adnabod y lefel rhuglder sydd naill ai'n ofynnol neu'n ddymunol o fewn timau staff neu swyddi arbennig. Felly bydd y Coleg yn gallu cymryd y camau priodol i gynnal y lefelau cywir fel rhan o Strategaeth Adnoddau Dynol cyffredinol y Coleg.

3.6.4 Recriwtio

- 3.6.4.1 Bydd y Coleg yn datblygu Fframwaith Sgiliau Ieithyddol i'w ddefnyddio i asesu ac adnabod anghenion ieithyddol swyddi academiaidd a swyddi gwasanaeth. Yn achos y swyddi hynny lle mae gallu yn yr iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, bydd yr hysbyseb a manyleb y swydd yn datgan hynny'n benodol.
- 3.6.4.2 Bydd y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn cefnogi datblygiad sgiliau iaith staff er mwyn hwyluso rhaglen addysgu ddwyieithog fwy cynhwysfawr. Bydd y Strategaeth Adnoddau Dynol yn cynnwys cyfeiriad penodol at y polisi dwyieithog a bod siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg yn cael eu croesawu fel aelodau o staff y Coleg. Bydd y llawlyfr staff a'r ffurflenni cais yn egluro hyn hefyd.
- 3.6.4.3 Os oes rhaid penodi siaradwr di-Gymraeg i swydd lle mae'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol, bydd cyrraedd y safon ddiffiniedig yn y Gymraeg o fewn amserlen benodol yn amod o'r penodiad. Rhoddir cymorth i ddeiliaid y swydd i gyflawni hyn a bydd monitro ffurfiannol a chrynodol yn digwydd.

3.6.5 Datblygu Staff

- 3.6.5.1 Bydd y Coleg yn sicrhau bod cyfleoedd datblygu staff priodol ar gael i'r staff. Bydd y cyfleoedd hyn yn amrywio yn ôl yr anghenion a nodwyd a byddant yn amrywio o wella sgiliau cyfarch dwyieithog blaen swyddfa i fagu hyder staff yn eu gallu i addysgu cwricwlwm dwyieithog.

- 3.6.5.2 Mae'r staff i gyd yn cael eu hannog i fynychu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion fel rhan o Ddatblygu Staff a bydd y Swyddog Iaith Gymraeg a'r Cydlynnydd Cymraeg i Oedolion yn eu hysbysebu yn y Bwletin Staff. Bydd y Coleg yn targedu staff o feysydd dysgu dynodedig gan gynnig cyfle i hyd at uchafswm o 3 aelod o staff fynychu'r Cynllun Sabothol Cymraeg bob blwyddyn. Bydd y Coleg yn cynnig cwrs 'Cyflwyniad i'r Gymraeg' a 'Chymraeg Busnes' i staff, cwrs 5 awr CBAC 'Yr Iaith ar Waith.' Bydd y cyrsiau Cymraeg hyn i'r staff yn rhad ac am ddim.

Mae'r staff i gyd yn cael eu hannog i fynychu dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion.

- 3.6.5.3 Bydd ymwybyddiaeth staff o gyfrifoldeb y Coleg o ran y Cynllun Iaith wedi'i chynnwys o fewn rhaglenni sefydlu staff ac arfarniadau staff. Bydd anghenion hyfforddi pellach staff yn cael eu nodi yn ystod arfarniadau staff hefyd ac yn llywio cynlluniau datblygu staff yn y dyfodol.

- 3.6.5.4 Bydd y Coleg yn defnyddio arbenigedd mewnol ac allanol i helpu i ddarparu'r cymorth angenrheidiol. Bydd Cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) y Coleg yn cynnwys pennawd cyllideb ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg.

3.6.6 Hyfforddiant Galwedigaethol

- 3.6.6.1 Bydd y Coleg yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer ei staff drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd yn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu staff yn gweithredu rhaglen i fodloni'r angen hwnnw.
- 3.6.6.2 Yn y pynciau hynny lle mae hyfforddiant galwedigaethol yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg i'r cyhoedd, bydd staff hefyd yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth hon ac yn cael eu hannog i fynychu.

3.7 Adolygu a Monitro

- 3.7.1 Bydd y Coleg yn monitro gweithrediad y Cynllun ac yn mesur yn rheolaidd i ba raddau y mae'n diwallu'r amcanion. Mae gan y Coleg fframwaith sicrhau ansawdd a chynllunio cynhwysfawr sy'n cael ei ddefnyddio i fonitro a gwerthuso'r holl bolisiâu. Yn ogystal â'r fframwaith sicrhau ansawdd bydd y Coleg hefyd yn cynnal gwiriadau 'cwsmer cudd' er mwyn monitro perfformiad.

Bydd cyfleoedd datblygu staff priodol ar gael.

Bydd y Coleg hefyd yn cynnal gwiriadau 'cwsmer cudd' er mwyn monitro perfformiad.

- 3.7.2 Bydd cynnydd yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob blwyddyn. Bydd y Grŵp Llywio yn cynnal yr adolygiad a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Rheoli Strategol a'r Corff Llywodraethu.
- 3.7.3 Bydd y Swyddog Iaith Gymraeg yn llunio'r adroddiad, gyda chymorth y Ddirprwy Brifathrawes. Bydd adroddiad yr adolygiad yn cynnwys gwybodaeth ar gydymffurfio a pherfformiad yn erbyn y targedau yn y Cynllun Gweithredu.
- 3.7.4 Bydd yr adroddiad blynyddol cymeradwy yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.
- 3.7.5 Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth ar gydymffurfiaeth a pherfformiad yn erbyn targedau'r Cynllun a bydd yn esbonio unrhyw danberfformiad, gan adnabod y camau i'w cymryd i fynd i'r afael â hyn.
- 3.7.6 Bydd yr adroddiad yn cynnig modd i'r Coleg gyflawni'r amcanion canlynol:
 - Mesur cydymffurfiaeth â'r Cynllun
 - Mesur ansawdd gwasanaeth cyfrwng Cymraeg
 - Mesur effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli'r Cynllun
 - Mesur digonolrwydd gallu sgiliau ieithyddol y Coleg drwy gymharu adnoddau ac angen cyfredol
 - Mesur yr adnoddau cyffredinol a neilltuir i'w defnyddio er mwyn gweithredu a datblygu'r Cynllun

- Dadansoddi perfformiad ar draws safleoedd a meysydd rhaglenni i sicrhau cysondeb
- adnabod gwendidau allweddol gyda chynllun gweithredu, amserlen a dadansoddi risg

3.7.7 Bydd copi o'r Cynllun ac adroddiadau'r adolygiad blynyddol ar gael i bob llywodraethwr, staff ac aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn amdano drwy wefan y Coleg. Bydd yn cael ei ddwyn at sylw pob rhanddeiliad.

3.7.8 Bydd bodolaeth Cynllun yr Iaith Gymraeg yn cael cyhoeddusrwydd ym mhrosiectws y Coleg, ar ei wefan a bydd yn cael sylw ym mhob diwrnod agored ac mewn digwyddiadau tebyg.

3.8 Ansawdd

3.8.1 Mae darpariaeth academiaidd a gweithrediadau swyddogaethol Coleg Gŵyr Abertawe yn destun system hunanasesu effeithiol. Mae'r system hon wedi cael ei llunio i fodloni Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Mae'r fframwaith asesu'n canolbwyntio ar brosesau dysgu ac addysgu er mwyn gwella cyfraddau cyrhaeddiad yn y sefydliad a chodi safonau drwy broses drwyadl o arsylwi yn yr ystafell ddosbarth, rheolaeth perfformiad, cefnogaeth gan gymheiriad a llais y dysgwr. Bydd gofynion Cynllun Iaith Gymraeg y Coleg yn parhau i gael sylw fel rhan o brosesau adolygu pynciau/cyrsiau a phrosesau adolygu Meysydd Dysgu a Chyfadrannau.

3.8.2 Mae llais y dysgwr yn rhan annatod o brosesau adolygu'r Coleg a bydd yn sicrhau ei fod yn clywed yr hyn sydd gan ddysgwyr i'w ddweud am alw a darpariaeth ddwyieithog. Bydd y Swyddog Iaith Gymraeg yn dadansoddi cwestiynau penodol ac yn llunio adroddiad i Grŵp Llywio'r Gymraeg.



3.9 Cwynion a Sylwadau

- 3.9.1 Mae gweithdrefn gwyno gan y Coleg sy'n ymdrin â phob math o gwynion. Os bydd unrhyw gwynion ynghylch gweithredu'r Cynllun bydd y weithdrefn hon yn cael ei dilyn.
- 3.9.2 Mae'r Coleg yn croesawu awgrymiadau ar sut i wella'i wasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir gwneud awgrymiadau i unrhyw aelod o staff neu drwy ddull arall a chânt eu cyflwyno i'r Ddirprwy Brifathrawes i'w hystyried gan y Tîm Rheoli Gweithredol.

3.10 Cyhoeddi Gwybodaeth a Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

- 3.10.1 Bydd y Cynllun ar gael ar wefan y Coleg a chaiff hysbysiad electronig ei anfon at bob aelod o staff pan fydd y Cynllun wedi'i gymeradwyo.
- 3.10.2 Bydd prospectysau'r Coleg yn cyfeirio at y Cynllun a bydd arwyddion i'w gweld yn y dderbynfa ar y ddau gampws.
- 3.10.3 Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei Gynllun Iaith Gymraeg yn cael cyhoeddusrwydd er mwyn gwneud yn siŵr ar un llaw fod y cyhoedd a'r myfyrwyr sy'n dod i gysylltiad â'r Coleg yn ymwybodol o'i wasanaethau a'i ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg, ac ar y llaw arall bod gweithwyr, asiantau a chontractwyr y Coleg yn ymwybodol o'r angen i weithredu yn unol â gofynion y Cynllun.
- 3.10.4 Bydd y Coleg yn mabwysiadu'r dulliau canlynol o roi cyhoeddusrwydd i'w Gynllun Iaith Gymraeg:
- Dosbarthu copïau electronig o'r Cynllun i staff gweinyddol a staff academiaidd.
 - Dosbarthu copïau o'r Cynllun i sefydliadau ac unigolion eraill sydd â diddordeb yn narpariaethau Cymraeg y Coleg.
 - Rhoi'r Cynllun ar wefan y Coleg.



4. Datblygu Ethos Cymraeg yn y Coleg

4.1 Trefniadau Gweinyddol

- 4.1.1 Bydd pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu hannog i wisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' a gyflenwir gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn eu hadnabod a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- 4.1.2 Bydd rhestr o holl staff y Coleg sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael ei llunio a bydd i'w gweld ar y fewnwyd. Caiff y rhestr hon ei diweddaru'n flynyddol.
- 4.1.3 Bydd Rheolwyr Maes Dysgu yn gyfrifol am gadw golwg ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a materion diwylliannol o fewn eu Meysydd Dysgu academaidd. Mae pob Maes Dysgu yn cael ei gynrychioli ar Grŵp Llywio'r Gymraeg y Coleg.

4.2 Datblygu Ethos Cymraeg o fewn y cwricwlwm

Bydd y Coleg yn gwneud y defnydd gorau posibl o staff i hyrwyddo ethos Cymraeg a gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dysgwyr o'u hunaniaeth Gymreig.

- 4.2.1 Bydd y Coleg yn gwneud y defnydd gorau posibl o staff i hyrwyddo ethos Cymraeg a gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dysgwyr o'u hunaniaeth Gymreig. Caiff enghreifftiau o arferion gorau yn yr amgylchedd addysgu eu rhannu gan yr Uwch Ymarferwyr Addysgu ar draws y Coleg.
- 4.2.2 Bydd y rhaglen diwtorial a chwrs Bagloriaeth Cymru yn cynnwys elfen o ymwybyddiaeth iaith a diwylliant. Er enghraifft, bydd arwyddocâd natur ddwyieithog Cymru yn cael ei bwysleisio wrth ystyried cyfleoedd gyrfa posibl o fewn llwybrau galwedigaethol perthnasol. Mae gweithgareddau eraill fel y Ffair Amrywiaeth a Mis Cŵl Cymru yn gyfleoedd ychwanegol i hybu iaith a diwylliant Cymru.
- 4.2.3 Bydd ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant Cymru yn parhau i gael ei datblygu a'i chyflwyno. Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn caiff ei hestyn i gynnwys yr holl ddysgwyr amser llawn a dysgwyr rhan-amser arwyddocaol ar draws pob Maes Dysgu. Bydd templedi o gynlluniau gwaith yn ei gwneud hi'n ofynnol i diwtoriaid nodi cyfleoedd priodol i drafod iaith a diwylliant Cymru.

- 4.2.4 Bydd Grŵp Llywio'r Gymraeg yn nodi ac yn cefnogi datblygiad gweithgareddau allgyrsiol i wella profiadau diwylliannol dysgwyr drwy weithio mewn partneriaeth â'r Urdd a Menter Iaith Abertawe.

4.3 Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

Gohebiaeth ysgrifenedig ac e-bost

- 4.3.1 Bydd y Coleg yn croesawu llythyrau a gohebiaeth arall e.e. gohebiaeth electronig yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.3.2 Bydd y Coleg yn gohebu a'r cyhoedd yn eu dewis iaith. Os na wyddys beth yw dewis iaith y derbynnydd, bydd y Coleg yn gohebu yn ddwyieithog.
- 4.3.3 Pan dderbynnir llythyr yn Gymraeg, anfonir ymateb wedi'i lofnodi yn Gymraeg.
- 4.3.4 Bydd y Coleg yn gweithredu'r un safonau o ran cyflymder ymateb i ohebiaeth Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.
- 4.3.5 Bydd y Coleg yn gohebu yn Gymraeg ar ôl cael sgwrs wyneb yn wyneb neu sgwrs ffôn yn Gymraeg.
- 4.3.6 Bydd cylchlythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 4.3.7 Caiff staff eu hysbysu am weithdrefnau'r Coleg o ran delio â gohebiaeth Gymraeg mewn sesiynau briffio staff ac mewn sesiynau sefydlu i staff newydd. Bydd hyfforddiant Gofal Cwsmeriaid i staff cymorth busnes yn cynnwys gohebu yn Gymraeg.
- 4.3.8 Bydd yn ofynnol i'r holl staff sy'n defnyddio llofnod electronig wneud hynny'n ddwyieithog. Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn, bydd cymorth ar gael i'r staff allu cyflawni hyn. Bydd troednodyn sy'n esbonio'r cyfleoedd i'r cyhoedd gyfathrebu yn Gymraeg yn cael ei ychwanegu at yr holl ohebiaeth e-bost sy'n cael ei hanfon.

Cyfathrebu dros y ffôn

- 4.3.9 Bydd y Coleg yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.3.10 Bydd yr holl staff rheng flaen yn ateb galwadau allanol gyda chyfarchiad dwyieithog. Bydd yr holl staff newydd ar y rheng flaen yn cael eu cynorthwyo i wneud hyn fel rhan o'u rhaglen sefydlu.
- 4.3.11 Bydd pobl sy'n ffonio ac yn dymuno siarad yn Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i swyddog sy'n gallu siarad Cymraeg. Os nad oes gan y swyddog yr arbenigedd angenrheidiol i ymdrin â phwnc dan sylw, bydd rhaid i'r swyddog hwnnw drefnu i arbenigwr priodol sy'n meddu ar y sgiliau iaith angenrheidiol ddychwelyd yr alwad.

Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael, bydd gan y galwr y dewisiadau canlynol:

- Cael ei drosglwyddo i siaradwr Cymraeg arall er efallai na fydd ganddo neu ganddi'r arbenigedd arbenigol
- Cael siaradwr Cymraeg i ddychwelyd yr alwad
- Parhau â'r alwad yn Saesneg
- Cyflwyno ymholiad ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 4.3.12 Bydd y negeseuon cychwynnol ar switsfwrdd/lleisbost y Coleg yn ddwyieithog.

Digwyddiadau Cyhoeddus a Chyfarfodydd Ymgynghori Ffurfiol

- 4.3.13 Yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus a drefnir gan y Coleg croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 4.3.14 Bydd hysbysiadau, gwahoddiadau a phapurau'r digwyddiadau cyhoeddus hyn yn annog cyfraniadau drwy gyfrwng y Gymraeg a gofynnir i'r rhai sy'n bwriadu gwneud hynny roi gwybod i'r Coleg ymlaen llaw.
- 4.3.15 O'r ymatebion sy'n dod i law, bydd y Coleg yn asesu a oes angen defnyddio asiantaeth allanol i ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd. Bydd y Coleg yn ceisio sicrhau bod o leiaf un aelod o staff sydd â sgiliau dwyieithog yn bresennol ym mhob cyfarfod.
- 4.3.16 Os bydd cyfranogwr am siarad yn Gymraeg ac yntau heb roi gwybod i'r Coleg o flaen llaw, gofynnir i siaradwr Cymraeg ar fyr rybudd, pan fo'n bosibl, i ddarparu cyfieithiad olynol.

Cyfarfodydd eraill

- 4.3.17 Bydd gwahoddiadau sy'n cael eu hanfon at aelodau o'r cyhoedd i ddod i gyfarfod wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr y Coleg yn annog cyfraniadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwahoddiadau i ddod am gyfweiliad am le yn y Coleg neu drafodaethau ynghylch cynnydd dysgwr.
- 4.3.18 O'r ymateb a dderbynnir a sgiliau iaith Gymraeg cynrychiolydd y Coleg a fydd yn cymryd rhan yn y cyfarfod, bydd cynrychiolydd o'r Coleg ar gael gyda rhybudd/cais blaenorol.

Cysylltiadau eraill â'r cyhoedd

- 4.3.19 Gan fod y Coleg yn rhyngweithio â'r cyhoedd ac asiantaethau eraill fwyfwy drwy ddulliau electronig, bydd y Coleg yn parhau i fod yn sensitif i ddewisiadau iaith y cyfranogwyr eraill.

4.4 Wyneb Cyhoeddus y Coleg

Hunaniaeth Gorfforaethol

- 4.4.1 Bydd wyneb cyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Coleg yn gwbl ddwyieithog.
- 4.4.2 Bydd enw a logo'r Coleg yn ddwyieithog.
- 4.4.3 Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei wefan yn ddwyieithog, gyda gwybodaeth ar sut i gysylltu â'r Coleg yn Gymraeg drwy ddulliau electronig. Gall tudalennau a chronfeydd data cyrsiau sy'n disgrifio cyrsiau unigol a addysgir yn Saesneg yn unig aros yn Saesneg yn unig, a hefyd pob adran ar gyfer y farchnad ryngwladol.

Arwyddion

- 4.4.4 Bydd y Coleg yn defnyddio arwyddion heb eiriau pan fo'n bosibl yn unol â safonau rhyngwladol.
- 4.4.5 Bydd yr holl arwyddion sy'n cynnwys geiriau ac sy'n cael eu codi gan y Coleg neu ar ei ran yn ddwyieithog.
- 4.4.6 Pan fo'n bosibl, bydd y geiriau Cymraeg a Saesneg i'w gweld gyda'i gilydd ar un arwydd a byddant yn gyfartal o ran ffurf a maint.
- 4.4.7 Pan fydd rhaid defnyddio arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran maint, ffurf, eglurder, siâp ac amlygrwydd.

Cyhoeddi ac argraffu deunyddiau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru

- 4.4.8 Bydd yr holl ddeunyddiau printiedig a deunyddiau cyhoeddusrwydd yn hyrwyddo'r Gymraeg ac ethos dwyieithog y Coleg. Mae'r Coleg yn cyhoeddi prospectws dwyieithog amser llawn a rhan-amser. Bydd pob hysbyseb ar gyfer digwyddiadau yn y Coleg, e.e. nosweithiau agored, yn ddwyieithog.
- 4.4.9 Bydd gohebiaeth a chyhoeddiadau cyffredinol swyddogol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
- 4.4.10 Pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, byddant yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd, eu dosbarthu gyda'i gilydd ac yr un mor hawdd i'w cael. Os codir tâl am ddogfen, bydd pris pob fersiwn yr un fath.

Ffurflenni i'w dosbarthu'n allanol a deunyddiau eglurhaol cysylltiedig

- 4.4.11 Bydd ffurflenni sydd i'w dosbarthu'n allanol a deunyddiau eglurhaol cysylltiedig yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, ac yn yr un ddogfen os oes modd.
- 4.4.12 Pan fydd ffurflenni'n cael eu cynhyrchu ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg, bydd pob un yn cynnwys datganiad sy'n esbonio bod ffurflen ar gael yn yr iaith arall.

4.4.13 Pan fydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynhyrchu ar wahân, byddant yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd, eu dosbarthu gyda'i gilydd ac yr un mor hawdd i'w cael.

Hysbysiadau yn y wasg

4.4.14 Bydd datganiadau'r wasg yn cael eu cyhoeddi yn unol â dewis iaith y sawl sy'n ei dderbyn. Bydd datganiadau'r wasg a anfonir at bob ysgol, coleg a sefydliad addysg yn ddwyieithog, waeth beth fo'r pwnc dan sylw. Bydd datganiadau'r wasg ar wefan y Coleg yn ddwyieithog hefyd. Bydd datganiadau'r wasg yn y wasg Gymraeg yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig. Bydd datganiadau'r wasg heb fod yn y wasg Gymraeg yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg.

Hysbysebu a gweithgareddau cyhoeddusrwydd

Bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn hyrwyddo ei ethos dwyieithog i ddysgwyr a'r cyhoedd drwy ei hysbysebion a'i weithgareddau cyhoeddusrwydd. Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei ddeunyddiau cyhoeddusrwydd printiedig yn ddwyieithog yn ogystal â'i wefan a bydd unrhyw fath arall o gyhoeddusrwydd electronig yn ddwyieithog hefyd.

4.4.15 Bydd pob math o hysbysebu a ddefnyddir gan y Coleg, a fydd yn ymddangos yng Nghymru yn unig, yn ddwyieithog. Mae hyn yn berthnasol i hysbysebion ar gyfer myfyrwyr, staff a gwasanaethau eraill y Coleg.

4.4.16 Bydd pob math o gyhoeddusrwydd a ddefnyddir gan y Coleg, a fydd yn ymddangos yng Nghymru yn unig, gan gynnwys arddangosiadau, ymgyrchoedd marchnata ac arolygon cyhoeddus, yn ddwyieithog. Er y bydd pob math o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog mewn un fformat, bydd baneri allanol a ddefnyddir at ddibenion cyhoeddusrwydd/hysbysebu digwyddiadau'r Coleg, e.e. nosweithiau agored, mewn ffurfiau ar wahân. Bydd y Coleg yn sicrhau bod y baneri Cymraeg a Saesneg yn cael eu dangos gyda'i gilydd a'u bod yn gyfartal o ran maint, ffurf, eglurder, siâp ac amlygrwydd.

4.4.17 Bydd hysbysebion a chyhoeddusrwydd yn y cyfryngau sy'n cylchredeg drwy'r DU (e.e. y Times Educational Supplement) yn Saesneg yn unig. Bydd hysbysebion yn y cyfryngau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, fel y bo'n briodol.

4.4.18 Pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn ymateb i hysbyseb ddwyieithog ac yn gofyn am ragor o wybodaeth, bydd yr wybodaeth honno'n cael ei darparu naill ai'n ddwyieithog neu yn iaith yr ymateb.

Hysbysiadau swyddogol

4.4.19 Bydd hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus sy'n ymddangos yng Nghymru yn dangos y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd, a byddant yn gyfartal o ran maint, fformat, eglurdeb ac amlygrwydd.



5. Datblygu Sgiliau Cyfathrebu Dwyieithog i Ychwanegu at y Ddarpariaeth Cyfrwng Saesneg

5.1 Mae'r Coleg yn cynllunio'r cwricwlwm a gaiff ei gynnig yn flynyddol. Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn, bydd y Broses Cynllunio'r Cwricwlwm yn cynnwys adolygiad o weithgareddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog presennol, a'r nod fydd ehangu cyfleoedd dwyieithog dros gyfnod y Cynllun. Ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd cynhelir Ffair y Glas i lansio'r Clwb Cymraeg mewn partneriaeth â'r Urdd a Menter Iaith Abertawe.

5.1 Mae'r Coleg hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu Sgiliau Iaith Gymraeg drwy unedau sgwrsio yn Gymraeg (a addysgir i bob dysgwr Gofal Plant ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd), unedau Cymraeg fel rhan o Fagloriaeth Cymru, darpariaeth ran-amser Cymraeg i Oedolion ar lefelau 1 a 2 (fel darparwr trydydd parti ar ran Prifysgol Abertawe) a gweithdai amrywiol yn y Celfyddydau Perfformio.

5.3 Mae darpariaeth diwtorial a chymorth bugeiliol dwyieithog yn cael ei chynnig yn ôl y galw mewn nifer o lwybrau galwedigaethol.

5.4 Yn ystod y broses ymgeisio bydd y Coleg yn adnabod y myfyrwyr hynny sydd wedi dod o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg lleol a bydd yn cynnig cyfleoedd iddynt ddilyn rhywfaint o'u hastudiaethau'n

ddwyieithog neu barhau i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg drwy weithgareddau megis y ddarpariaeth diwtorial.

5.5 Mae sawl tiwtor sy'n addysgu pynciau U/UG wedi datblygu 'Rhestr Termau' ddwyieithog i annog dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i barhau i ddefnyddio'r iaith.

5.6 Bydd pob myfyriwr yn ymwybodol o'r cyfleoedd ieithyddol a'r cymorth sydd ar gael iddynt yn ystod y cyfnod sefydlu. Cânt eu hannog hefyd i ystyried manteision cael sgiliau iaith Gymraeg mwy datblygedig a dealltwriaeth well o ddiwylliannau cenedlaethol a lleol.

5.7 Bydd y Coleg yn hyrwyddo sgiliau cyfathrebu dwyieithog ei ddysgwyr a bydd yn cynnig naill ai "Yr Iaith ar Waith" neu unedau Cymraeg priodol eraill er mwyn achredu gweithgareddau dysgu.

5.8 Bydd y broses gynllunio yn cynnwys gwerthuso darpariaeth achrededig bresennol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth fwyaf priodol ar gael i ateb anghenion unigol dysgwyr.

5.9 Bydd y Coleg yn ceisio ehangu nifer y dysgwyr sy'n dilyn darpariaeth Gymraeg alwedigaethol yn ystod cyfnod Cynllun yr Iaith Gymraeg.



6. Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg neu Ddwylieithog i Ddysgwyr Ôl-14

- 6.1** Mae'r Coleg yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i gwricwlwm bob blwyddyn. Mae'r broses yn cael ei goruchwyllo gan yr Is-brifathrawes Cwricwlwm a Dysgwyr er mwyn sicrhau agwedd gyson a strategol. Mae'r Deoniaid Cyfadran yn cymryd yr awenau wrth reoli maes cwricwlwm penodedig ac yn cydweithio'n agos â'u Rheolwyr Maes Dysgu i adolygu a chynllunio'r cwricwlwm fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol. Bydd hyn yn cynnwys adnabod cyfleoedd i ddatblygu cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwylieithog.
- 6.2** Mae'r Rheolwyr Maes Dysgu yn cydweithio'n agos â'u timau staff i ddatblygu gallu a hyder staff i gyflwyno Cymraeg achlysurol o fewn gweithgarwch cwricwlwm a thiwtorial.
- 6.3** Mae'r Coleg wedi blaenoriaethu meysydd darpariaeth megis Iechyd a Gofal a Gofal Plant a bydd yn parhau i fonitro a blaenoriaethu gweithgarwch drwy ei agwedd strategol at gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r broses hon yn cynnwys archwilio'n ofalus flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, dadansoddi anghenion sgiliau lleol ac ati er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm a gynigir gan y Coleg yn ymatebol.
- 6.4** Ar hyn o bryd mae'r Coleg yn darparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn Gofal Plant ar lefelau 2 a 3 a Thrin Gwallt ar lefel 1 i ddysgwyr ôl-14. Mae'r Coleg yn darparu'r cyrsiau hyn mewn partneriaeth ag Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe. Mae'r cyrsiau Gofal Plant yn cael eu haddysgu ar safle'r ysgol a bydd aelod o staff y Coleg yn mynd i'r ysgol. Mae'r dull hwn o weithio yn un sy'n cael ei groesawu gan yr ysgol ac mae'n cynnig cyfle i'r Coleg gael trafodaethau pellach â'r ysgolion i weld a ellid estyn y dull gweithio hwn i lwybrau galwedigaethol eraill.
- 6.5** Ar hyn o bryd mae'r Coleg yn darparu cyrsiau rhannol ddwyieithog yn y llwybrau galwedigaethol canlynol: Trin Gwallt, Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Arlwy. Yn ogystal, mae cyfleoedd dwylieithog i ddysgwyr sy'n astudio Mynediad i'r Gyfraith a Rhifedd Addysg Sylfaenol Oedolion. Bydd y Coleg yn ystyried y nifer sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn ar bob lefel o ddarpariaeth.
- 6.6** Mae'r Coleg yn cynnig darpariaeth diwtorial drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n cynnal o leiaf un Grŵp Tiwtorial Cymraeg bob blwyddyn mewn ymateb i'r galw gan ddysgwyr.
- 6.7** Mae cymhwyster Mentora a Hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael hefyd i ddysgwyr fel rhan o'n Cynllun Mentora Cymheiriaid. Gall dysgwyr ar y rhaglen hon ymateb i unrhyw alw gan ddysgwyr i gael eu mentora drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.8** Mae cyfleoedd hefyd i ddysgwyr gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd canlynol: Trin Gwallt, Arlwy, Gofal Plant ac Iechyd a Gofal.
- 6.9** Gall dysgwyr Gofal Plant sy'n siarad Cymraeg ddilyn elfen profiad gwaith y cwrs mewn Meithrinfa Gymraeg a chânt eu cefnogi gan Swyddog Lleoliad Gwaith sy'n siarad Cymraeg.
- 6.10** Mae Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru wedi nodi'r meysydd blaenoriaeth canlynol ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg:
- Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar
 - Amaethyddiaeth / Astudiaethau ar y Tir
 - Twristiaeth a Hamdden
 - Gofal i Oedolion
 - Gweinyddu Busnes a TG
 - Astudiaethau'r Cyfryngau / Y Celfyddydau Perfformio
- Mae'r Coleg eisoes wedi datblygu ystod o gyfleoedd dwylieithog ym maes Gofal Plant, y Blynyddoedd Cynnar a'r Celfyddydau Perfformio ynghyd â rhai sgiliau generig gweinyddu busnes megis cyfathrebu. Bydd y Coleg yn adeiladu ar y gweithgarwch hwn ac yn ehangu cyfleoedd o fewn y llwybrau a nodwyd eisoes yn ogystal â datblygu cyfleoedd mewn llwybrau newydd.
- 6.11** Mae'r Deoniaid Cyfadran yn ymwybodol o'r blaenoriaethau hyn a byddant yn eu hystyried wrth gynllunio'r cwricwlwm.
- 6.12** Mae'r Coleg wedi penodi Rheolwr Cwricwlwm Cyswllt Ysgolion 14-19 sy'n gyfrifol am gydweithio â'r holl ysgolion uwchradd yn Ninas a Sir Abertawe. Y prif ffocws yn y rôl hon yw meithrin cyfleoedd cydweithio i ddysgwyr 14+. Mae'r rheolwr wedi meithrin perthynas weithio agos â'r ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg.

7. Amserlen a Chynllun Gweithredu

- 7.1** Bydd Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf Coleg Gŵyr Abertawe yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd o'r flwyddyn academiaidd yn dechrau ar ôl y dyddiad y caiff y Cynllun ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 7.2** Mae'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn seiliedig ar Strategaeth Genedlaethol ar Ddwyieithrwydd ColegauCymru. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnig dull clir i'r Coleg fesur cynnydd ar weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg ein hunain.
- 7.3** Bydd cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro'n gyson gan Grŵp Llywio'r Gymraeg a bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu paratoi i'r Bwrdd Corfforaethol.

